

# Darparu a defnyddio cyfarpar gwaith

Canllaw cryno



Fersiwn i'r we o daflen  
INDG291(rev1), a  
gyhoeddwyd 03/13 yw hwn

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn darparu amlinelliad o ofynion y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER) ac yn disgrifio beth allwch chi, fel cyflogwr, fod angen gwneud i ddiogelu eich cyflogeion yn y gweithle. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i gyflogeion a'u cynrychiolwyr.

Efallai y bydd gofynion penodol ar y cyfarpar a ddefnyddiwyd yn y gwaith; os yw hyn yn wir yna bydd y daflen yn eich cyfeirio tuag at ragor o wybodaeth fyddwch angen.

## Pa gyfarpar a gynhwysir dan y Rheoliadau?

Yn gyffredinol, mae  **unrhyw gyfarpar a ddefnyddir gan gyflogai yn y gwaith** wedi ei gynnwys, er enghraifft, morthwylion, cyllyll, ysgolion, peiriannau drilio, gweisg pŵer, llifiau crwn, llungopiwyd, offer codi (yn cynnwys lifftiau), tryciau dympio a cherbydau modur. Felly hefyd, os ydych chi'n caniatáu i gyflogeion ddarparu eu hoffer eu hunain, yna bydd hefyd wedi ei gynnwys dan PUWER a bydd angen i chi sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

Ymysg yr enghreifftiau o ddefnydd o gyfarpar a gynhwysir yn y Rheoliadau mae cychwyn neu stopio'r cyfarpar, trwsio, addasu, cynnal, gwasanaethu, glanhau a chludo.

## A yw'r Rheoliadau yn berthnasol i mi?

Os ydych chi'n gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig ac yn darparu cyfarpar i'w defnyddio yn y gwaith, neu os oes gennych reolaeth dros ddefnydd o'r offer, yna bydd y Rheoliadau yn berthnasol i chi.

**Nid ydynt** yn berthnasol i gyfarpar a ddefnyddir gan y cyhoedd, er enghraifft, cyfarpar aer cywasgedig a ddefnyddir ar gyrtiau blaen garejys. Fodd bynnag, mae amgylchiadau o'r fath wedi eu cwmpasu yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW).

Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu gweithfannau ble mae'r Ddeddf HSW yn berthnasol – mae hyn yn cynnwys ffatrioedd, gosodiadau alltraeth, swyddfeydd, siopau, ysbytai, gwestyau, lleoliadau adloniant ac ati. Mae PUWER hefyd yn berthnasol i rannau cyffredin o adeiladau a rannir a gweithfannau dros dro megis safleoedd adeiladu.

Tra bydd y rheoliadau yn cwmpasu cyfarpar a ddefnyddir gan bobl yn gweithio o adref, ni fyddant yn berthnasol i waith domestig mewn cartref preifat.

## Beth mae'r Rheoliadau yn gofyn i mi wneud?

Rhaid i chi **sicrhau** bod y cyfarpar gwaith a ddarparwch yn bodloni gofynion PUWER. Dylech sicrhau ei fod yn:

- **addas** i'w ddefnyddio, ac i'r dibenion ac amodau y bydd yn cael ei ddefnyddio;
- cael ei **gynnal** mewn cyflwr diogel i'w ddefnyddio fel nad oes risg i iechyd a diogelwch pobl; ac
- yn cael ei **archwilio**, dan amodau penodol, i sicrhau ei fod, a'i fod yn parhau i fod, yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dylid cyflawni unrhyw arolygiad gan unigolyn cymwys (gallai hyn fod yn gyflogai os oes ganddo'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'r dasg) a chadw cofnod tan yr archwiliad nesaf.

Dylech hefyd sicrhau bod y risgiau a grëir wrth ddefnyddio'r cyfarpar wedi eu dileu ble fo'n bosibl neu eu rheoli cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol trwy:

- gymryd camau '**caledwedd' priodol**, e.e. darparu gardiau addas, dyfeisiau diogelu, marciau a dyfeisiau rhybudd, dyfeisiau rheoli system (megis botymau stop brys) a chyfarpar amddiffynnol personol; a
- chymryd camau '**meddalwedd' priodol** megis dilyn systemau gwaith diogel (e.e. sicrhau mai dim ond pan fydd cyfarpar wedi ei ddiffodd yn llwyr y cynhelir gwaith cynnal ac ati), a darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant digonol ynglŷn â'r cyfarpar penodol.

Efallai y bydd angen cyfuniad o'r mesurau hyn yn ddibynnol ar ofynion y gwaith, eich asesiad o'r risgiau dan sylw, ac ymarferoldeb mesurau o'r fath.

## Peiriannau

### *Pam fod diogelwch peiriannau yn bwysig?*

Gall gweithio gyda pheiriannau fod yn beryglus gan y gall peiriannau sy'n symud achosi anafiadau mewn sawl ffordd:

- Gall pobl gael eu taro ac anafu gan rannau o beiriannau sy'n symud neu ddeunydd sy'n cael ei fwrw allan. Gellir hefyd tynnu rhannau i'r corff i mewn i neu eu dal rhwng rholeri, beltiau a gyriant pwli.
- Gall ymylon miniog achosi toriadau ac anafiadau gwahanu, gall rhannau pigfain miniog drywanu neu dyllu'r croen, a gall rhannau arwyneb garw achosi ffrithiant neu grafiadau.
- Gall pobl gael eu gwasgu rhwng darnau sy'n symud gyda'i gilydd neu tuag at ddarn sefydlog o'r peiriant, wal neu wrthrych arall, a gall dau ran yn symud yn erbyn ei gilydd achosi croeswasgiad.
- Gall rhannau o'r peiriant, deunyddiau neu allyriadau (megis stêm neu ddŵr) fod yn ddigon poeth neu oer i achosi llosgiadau neu sgaldiadau a gall trydan achosi siociau trydanol a llosgiadau.
- Gall anafiadau hefyd ddigwydd pan fydd peiriannau yn dod yn annibynadwy ac yn datblygu gwallau oherwydd cynhaliaeth wael neu ddiffyg cynhaliaeth neu pan fydd peiriannau yn cael eu defnyddio'n amhriodol o ganlyniad i ddiffyg profiad neu ddiffyg hyfforddiant.

### *Cyn i chi ddechrau*

Cyn gadael i rywun ddechrau defnyddio unrhyw beiriant, mae angen i chi feddwl am beth yw'r risgiau a sut y gellir eu rheoli. Dylech:

- Wirio ei fod yn gyfan, gyda'r holl amddiffyniadau wedi eu gosod, ac yn rhydd rhag diffygion. Mae'r term 'amddiffyniad' yn cynnwys gardiau, dyfeisiau cydgloëdig, rheolyddion dwy law, gardiau golau, matiau sensitif i wasgedd ac ati. Dan y gyfraith, rhaid i'r cyflenwr ddarparu'r amddiffyniadau cywir a hysbysu

prynwyr o unrhyw risgiau ('risgiau cilyddol') mae angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol ohonynt a'u rheoli gan nad oedd yn bosibl cynllunio i'w heithrio.

- Gynhyrchu system waith diogel ar gyfer defnyddio a chynnal y peiriant. Efallai y bydd angen archwilio nodweddion allweddol wrth gynnal ble byddai dirywiad yn achosi risg. Edrychwch hefyd ar risgiau gweddilliol a nodwyd gan y gweithgynhyrchwr yn yr wybodaeth/cyfarwyddiadau a ddarparwyd gyda'r peiriant a sicrhau eu bod wedi eu cynnwys yn y system waith ddiogel.
- Sicrhau bod pob peiriant statig wedi ei osod yn gywir ac yn sefydlog (fel arfer wedi ei osod i'r llawr) ac nad yw mewn lleoliad ble bydd gweithwyr eraill neu ymwelwyr wedi eu hamlygu i risg.
- Dewiswch y peiriant priodol ar gyfer y gwaith.

Noder y dylai peiriannau newydd gael nod CE arnynt a'u cyflenwi gyda Datganiad o Gydfymffuriad a chyfarwyddiadau yn Saesneg.

Gwnewch yn siŵr fod y peiriant:

- yn ddiogel ar gyfer unrhyw waith sydd angen ei wneud wrth sefydlu, yn ystod defnydd arferol, wrth glirio rhwystrau, wrth gyflawni gwaith trwsio wedi torri i lawr, ac yn ystod gwaith cynnal a gynlluniwyd;
- wedi ei ddiffodd yn gywir, ei ynysu neu ei gloi i ffwrdd cyn cymryd unrhyw gamau i dynnu rhwystrau, glanhau neu addasu'r peiriant.

Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi a delio â'r risgiau o:

- gyflenwadau pŵer trydanol, hydrolog neu niwmatig;
- amddiffyniadau wedi eu cynllunio'n wael. Efallai y bydd y rhain yn anghyfleus i'w defnyddio neu'n hawdd i'w trechu, a allai annog eich gweithwyr i gymryd risg o anaf neu dorri'r gyfraith. Os ydynt, dysgwch pam eu bod yn gwneud hyn a chymryd camau priodol i ddelio â'r rhesymau/achosion.

### ***Rhwystro mynediad at rannau peryglus***

Meddylwch am sut allwch chi wneud peiriant yn ddiogel. Dylai'r mesurau a ddefnyddiwch i atal mynediad at rannau peryglus fod yn y drefn ganlynol. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen defnyddio cyfuniad o'r mesurau hyn:

- Defnyddiwch gardiau sefydlog (e.e. wedi eu gosod gyda sgriwiau neu nytau a bolltau) i amgáu'r rhannau peryglus, ble bynnag fo'n ymarferol. Defnyddiwch y deunydd gorau ar gyfer y gardiau hyn - efallai bod plastig yn hawdd gweld trwyddo, ond mae'n hawdd ei ddifrodi. Ble byddwch yn defnyddio rhwyll wifrog neu ddeunydd tebyg, gwnewch yn siŵr nad yw'r tyllau'n ddigon mawr i ganiatáu mynediad i rannau sy'n symud.
- Os nad yw gardiau sefydlog yn ymarferol, defnyddiwch dulliau eraill, e.e. cydgloi'r gard fel nad yw'r peiriant yn gallu cychwyn cyn cau'r gard ac ni ellir ei agor tra bod y peiriant yn dal i symud. Mewn rhai achosion, gellir defnyddio systemau rhyddhau megis dyfeisiau ffotodrydanol, matiau sensitif i wasgedd neu gardiau awtomatig os nad yw gardiau eraill yn ymarferol.
- Ble nad yw'n bosibl i gardiau ddarparu amddiffyniad llawn, defnyddiwch jigiau, dalwyr, ffyn gwthio ac ati os yw'n ymarferol i wneud hynny.
- Rheolwch unrhyw risg sy'n weddill trwy ddarparu'r wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant, goruchwyliaeth ac offer diogelwch priodol angenrheidiol i'r gweithredwr.

### ***Pethau eraill y dylech eu hystyried***

- Dylai hyfforddiant digonol sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio'r peiriant yn gymwys i'w ddefnyddio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymwybyddiaeth o risgiau priodol, a'u bod yn gorfforol

addas ar gyfer y dasg. Weithiau mae angen cymwysterau ffurfiol, e.e. ar gyfer gweithredwyr llifiau cadwyn.

- Gwnewch yn siŵr bod switshis rheoli wedi eu marcio'n glir i ddangos beth maent yn ei wneud.
- Rhowch reolyddion stop brys ble fo angen, e.e. botymau gwasgu pen madarch o fewn cyrraedd.
- Gwnewch yn siŵr bod rheolyddion gweithredu wedi eu cynllunio a'u gosod i osgoi gweithrediad damweiniol ac anaf, defnyddiwch reolyddion dwy law ble fo angen a gorchuddio botymau cychwyn a phedalau.
- Peidiwch â gadael i bobl heb awdurdod, anghymwys neu heb hyfforddiant ddefnyddio'r peiriannau - peidiwch byth â gadael i blant weithredu neu helpu gyda'r peiriannau. Efallai y bydd rhai gweithwyr, e.e. dechreuwyr newydd, pobl ifanc neu rhai ag anableddau, dan risg arbennig ac angen cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth.
- Os yw peiriannau yn cael eu rheoli gan systemau electronig rhaglenadwy, dylai unigolyn cymwys gyflawni wneud newidiadau i unrhyw raglenni (rhywun sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel). Cadwch gofnod o newidiadau o'r fath a gwirio a ydynt wedi eu gwneud yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr bod yr ardal waith o amgylch y peiriant yn lân a thaclus, yn rhydd o rwystrau neu beryglon llithro a baglu, ac wedi eu goleuo'n dda.

### **Cyfarpar gwaith symudol**

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol hyn sy'n berthnasol i'r holl gyfarpar gwaith, mae Rhan III PUWER yn cynnwys dyletswyddau penodol parthed cyfarpar gwaith symudol, er enghraifft, wagenni fforch godi a thryciau dympio.

Dylech **sicrhau** os defnyddir cyfarpar gwaith symudol i gludo pobl, ei fod yn addas i'r diben hwn. Dylid cymryd camau i leihau'r risgiau (e.e. o rollo trosodd) i ddiogelwch y bobl sy'n cael eu cludo.

### **Gweisg pŵer**

Mae Rhan IV y Rheoliadau hefyd yn cynnwys gofynion penodol parthed gweisg pŵer. Yn benodol, dylech gael archwilio gwasg pŵer, a dyfais gard neu amddiffyn cysylltiedig, yn drylwyr ar gyfnodau penodedig a'i archwilio'n ddyddiol pan fydd yn cael ei ddefnyddio i **sicrhau** ei fod yn ddiogel. Dim ond unigolion cymwys ddylai gyflawni'r gwaith hwn a dylid cadw cofnodion.

### **Gair i gall ar ddiogelwch peiriannau**

Fel y deiliad dyletswydd, dylech sicrhau bod unrhyw gyflogai sy'n debygol o ddefnyddio'r peiriant yn deall ac yn dilyn y cyngor canlynol:

#### **Dylid...**

- ✓ gwirio bod y peiriant yn cael ei gynnal yn dda ac yn addas i'w ddefnyddio, h.y. yn briodol ar gyfer y dasg, yn gweithio'n gywir a bod yr holl fesurau diogelwch ar waith – gardiau, ynyswyr, mecanweithiau cloi, switshis diffodd brys ac ati;
- ✓ defnyddio'r peiriant yn briodol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr;
- ✓ sicrhau bod cyflogeion yn gwisgo'r dillad a chyfarpar amddiffynnol priodol sy'n ofynnol ar gyfer y peiriant hwnnw, megis sbectolau diogelwch, amddiffyniad clyw ac esgidiau diogelwch;
- ✓ sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio'r peiriannau yn gymwys i'w ddefnyddio'n ddiogel, gan ddarparu hyfforddiant ble fo angen. Ar gyfer rhai peiriannau, bydd angen cymhwyster ffurfiol.

*Ni ddylid...*

- ✘ defnyddio peiriant neu gyfarpar sydd ag arwydd perygl neu dag wedi ei atodi iddo. Dylai unigolyn awdurdodedig sy'n fodlon bod y peiriant neu broses nawr yn ddiogel dynnu arwyddion perygl;
- ✘ tynnu unrhyw amddiffyniadau, hyd yn oed os yw eu presenoldeb yn gwneud y dasg yn anoddach;
- ✘ gwisgo cadwyni sy'n hongian yn rhydd, dillad llac, modrwyau neu gael gwallt hir yn rhydd a allai gael ei ddal mewn rhannau symudol;
- ✘ tynnu sylw pobl sy'n defnyddio peiriannau.

## **Cynnal a chadw peiriannau a chyfarpar**

### ***Pam fod cynnal a chadw peiriannau a chyfarpar yn bwysig?***

Gall peryglon atodol ddigwydd pan fydd peiriannau a chyfarpar yn dod yn annibynadwy ac yn datblygu namau. Mae cynnal a chadw yn sicrhau y gellir canfod y gwallau hyn yn fuan, i reoli unrhyw risgiau. Fodd bynnag, mae angen cynllunio anghenion cynnal a chadw yn ofalus a'u cyflawni. Mae cynnal a chadw anniogel wedi achosi nifer o farwolaethau ac anafiadau difrifol naill ai yn ystod y cynnal a chadw neu i'r rhai sy'n defnyddio cyfarpar wedi ei gynnal yn wael neu wedi ei gynnal/trwsio yn anghywir.

Bydd rhaglen gynnal a chadw effeithiol yn gwneud peiriannau a chyfarpar yn fwy dibynadwy. Bydd llai o fethiannau yn golygu bod angen cyswllt llai diogel gyda pheiriannau, yn ogystal â manteision lleihau costau gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

Mae'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 yn gofyn am gynnal cyfarpar a pheiriannau gwaith fel ei fod yn dal yn ddiogel ac y cyflawnir gwaith cynnal yn ddiogel.

## **Beth sydd rhaid i mi ei wneud?**

Os ydych chi'n gyflogwr a'ch bod yn darparu cyfarpar i'w ddefnyddio (megis morthwylion, cyllyll ac ysgolion neu offer pŵer trydanol a pheiriannau mwy), mae angen i chi ddangos bod gennych drefniadau ar waith i sicrhau eu bod wedi eu cynnal mewn cyflwr diogel.

Meddyliwch am ba beryglon all ddigwydd:

- os yw cyfarpar yn torri wrth eu defnyddio;
- os yw peiriant yn cychwyn yn annisgwyl;
- os oes cyswllt gyda deunyddiau sydd fel arfer wedi eu hamgáu yn y peiriant, h.y. wedi ei achosi gan ollyngiadau/toriadau/alldaflad ac ati.

Gall methiant i gynllunio yn briodol a chyfathrebu cyfarwyddiadau a gwybodaeth glir cyn cychwyn cynnal a chadw arwain at ddryswch ac achosi damweiniau. Gall hyn fod yn broblem benodol os yw gwaith cynnal a chadw yn cael ei gyflawni yn ystod gwaith cynhyrchu arferol neu os nad yw contractwyr yn gyfarwydd â'r safle.

Mae angen gofal ychwanegol hefyd os yw'r cynnal a chadw yn cynnwys:

- gweithio ar uchder neu wneud gwaith sy'n gofyn am fynediad i rannau anarferol o'r adeilad;
- mynd i mewn i lestr neu fan cyfyng ble gall fod deunyddiau gwenwynig neu ddiffyg aer i'w anadlu.

### ***Sut allaf i ei wneud?***

Gallai sefydlu rhaglen gynnal a chadw penodol fod yn gam defnyddiol tuag at leihau risg, yn ogystal â chael gweithdrefn adrodd ar gyfer gweithwyr allai sylwir ar broblemau wrth weithio ar beiriant.

Efallai y bydd gan rai eitemau o beiriannau a chyfarpar nodweddion allweddol i ddiogelwch ble byddai dirywiad yn achosi risg. Rhaid i chi sefydlu trefniadau i sicrhau bod yr archwiliadau gofynnol yn eu lle.

Ond mae yna gamau eraill i'w hystyried:

#### ***Cyn i chi ddechrau cynnal a chadw***

- Penderfynwch a ddylai'r gwaith gael ei gyflawni gan gontractwyr arbenigol. Peidiwch byth â gwneud gwaith nad ydych yn gymwys nac yn barod i'w wneud.
- Cynlluniwch y gwaith yn ofalus cyn i chi ddechrau, yn ddefnyddol yn defnyddio cyfarwyddiadau cynnal a chadw'r cynhyrchwr, a chynhyrchu system waith ddiogel. Bydd hyn yn lleihau'r risgiau ac yn osgoi oedi na ragwelwyd.
- Gwnewch yn siŵr bod staff cynnal a chadw yn gymwys a bod ganddynt ddillad a chyfarpar priodol.
- Ceisiwch ddefnyddio amser anweithredol ar gyfer cynnal a chadw. Gallwch osgoi'r anawsterau o gydlynu cynnal a chadw a cholli amser cynhyrchu os yw gwaith cynnal a chadw yn cael ei gyflawni cyn cychwyn neu ystod cyfnodau diffodd.

#### ***Ardaloedd gwaith diogel***

- Rhaid i chi ddarparu mynediad diogel ac ardal waith ddiogel.
- Peidiwch â chanolbwyntio ar ddiogelwch gweithwyr cynnal a chadw yn unig – cymrwch y camau gofynnol i sicrhau diogelwch eraill all fod wedi eu heffeithio gan eu gwaith e.e. cyflogeion eraill neu gontractwyr sy'n gweithio gerllaw.
- Codwch arwyddion a rhwystrau a gosod pobl ar bwyntiau allweddol os oes angen i gadw pobl eraill allan.

#### ***Offer a chyfarpar diogel***

- Rhaid sicrhau bod offer a chyfarpar yn ddiogel cyn cychwyn cynnal a chadw.

#### ***Ynysiad diogel***

- Sicrhewch fod offer sy'n symud wedi stopio a'i fod wedi ei ynysu o gyflenwadau trydan a phŵer eraill. Dylid cyflawni'r rhan fwyaf o waith cynnal a chadw gyda'r pŵer wedi ei ddiffodd. Os yw'r gwaith yn agos at ddargludyddion trydan uwchben heb eu hynysu, e.e. yn agos at graenau teithio uwchben, diffoddwch y pŵer iddynt yn gyntaf.
- Dylid cloi'r peiriannau i ffwrdd os oes cyfle y gallai'r pŵer gael ei droi yn ôl ymlaen yn ddamweiniol.
- Ynyswch offer a phiblinellau sy'n cynnwys hylif, nwy, stem neu ddeunydd peryglus cywasgedig. Dylid cloi falfiau ynysu i ffwrdd.

#### ***Ffactorau eraill y dylech eu hystyried***

- Rhyddhau unrhyw ynni wedi ei storio, megis aer cywasgedig neu wasgedd hydrolig allai achosi i'r peiriant symud neu droi.
- Cefnogi rhannau o'r offer allai syrthio, e.e. cefnogi llafnau torwyr byrnau ôl-strôc a gilotinâu gyda blociau.
- Caniatáu amser i ddarnau sy'n gweithredu ar dymheredd uchel oeri.
- Rhoi offer symudol mewn gêr niwtral, gosod y brêc a chloi'r olwynion.
- Glanhau'r llestri sy'n cynnwys solidau, hylifau, nwyon neu lwch fflamadwy yn ddiogel a'u gwirio cyn cyflawni gwaith poeth, er mwyn atal ffrwydradau. Efallai y bydd angen cymorth a chynngor arbenigol i wneud hyn yn ddiogel.
- Osgoi mynd i mewn i danciau, llestri neu fannau cyfyng ble fo'n bosibl. Mae'n bosibl bod gan y gofodau hyn beryglon atodol oherwydd yr atmosffer neu risgiau o dân ac ati. Os oes angen, mynnwch gymorth arbenigol i sicrhau y dilynir rhagofalon.

- Gwiriwch a glanhau llestri sy'n cynnwys deunyddiau gwenwynig cyn dechrau gwaith. Os oes angen, mynnwch gymorth arbenigol i sicrhau y dilynir rhagofalon digonol.
- Gwnewch yn siŵr bod y rhai sy'n gwneud y gwaith cynnal a chadw yn gymwys i gyflawni'r gwaith. Efallai y bydd angen ichi ddarparu hyfforddiant i sicrhau'r cymhwyster hwnnw.

#### *Dylid...*

- ✓ sicrhau bod unigolyn cymwys yn cyflawni cynnal a chadw (rhywun sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn ddiogel);
- ✓ cynnal a chadw offer a chyfarpar yn rheolaidd – defnyddiwch gyfarwyddiadau cynnal a chadw'r cynhyrchwr fel canllaw, yn arbennig os oes nodweddion allweddol i ddiogelwch;
- ✓ sefydlu gweithdrefn sy'n caniatáu i weithwyr adrodd am offer wedi ei ddifrodi neu wallus;
- ✓ darparu'r offer priodol ar gyfer yr unigolyn cynnal a chadw;
- ✓ trefnu cynnal a chadw i finimeiddio'r risg i weithwyr eraill a'r sawl sy'n gwneud y cynnal ble fo'n bosibl;
- ✓ sicrhau y gwneir cynnal a chadw yn ddiogel, bod peiriannau a rhannau symudol wedi eu hynysu neu gloi ac y delir yn briodol â deunyddiau fflamadwy / ffrwydrol /gwenwynig.

#### *Ni ddylid...*

- ✗ anwybyddu cynnal a chadw;
- ✗ anwybyddu adroddiadau am gyfarpar wedi difrodi neu sy'n anniogel;
- ✗ defnyddio cyfarpar gwallus neu wedi difrodi.

### **Sut mae'r Rheoliadau yn berthnasol i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch arall?**

Mae angen ystyried gofynion y Rheoliadau ynghyd â chyfraith iechyd a diogelwch arall, e.e. mae adran 2 y Ddeddf HSW yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles eu cyflogeion i gyd ac mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn cynnwys dyletswyddau i gyflawni asesiad risg a nodi mesurau i ddileu, neu leihau, y risgiau a gyflwynir gan y peryglon penodol yn eich gweithle. Ceir canllaw ar sut i wneud hyn ar dudalennau gwe rheoli risg yr HSE ar [www.hse.gov.uk/risk/](http://www.hse.gov.uk/risk/).

Efallai y bydd deddfwriaeth fwy penodol hefyd yn berthnasol, er enghraifft:

- y Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992, sy'n cwmpasu, er enghraifft, risgiau gweithle i gerddwyr o gerbydau;
- y Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 2007 sy'n cynnwys, er enghraifft, gofynion penodol parthed mathau o gyfarpar gwaith megis sgaffaldau;
- y Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 2008, fel y'i diwygiwyd, sy'n gofyn bod peiriannau:
  - yn ddiogel pan y'i cyflenwir (mae 'diogel' yn cyfeirio at risgiau i iechyd a diogelwch);
  - yn dod gyda Datganiad o Gydymffuriad a chyfarwyddiadau defnyddiwr yn Saesneg; ac
  - yn cynnwys nod CE.

Mae'r gofynion hyn hefyd yn berthnasol i gyfarpar ymglyfnewidiol, cydrannau diogelwch a osodir yn annibynnol ar y farchnad, ategolion codi, cadwyni, rhaffau a webinâu, dyfeisiadau trawsgludo symudol a pheiriannau sydd wedi eu cwblhau'n rhannol.

Yn gyffredinol, os ydych chi'n bodloni gofynion deddfwriaeth fwy penodol megis y rhai a amlinellir uchod, bydd hyn fel arfer yn ddigonol i fodloni gofynion mwy cyffredinol PUWER.



## **Cael gwybod mwy**

*Safe use of work equipment. Provision and Use of Work Equipment Regulations 1998. Approved Code of Practice and guidance L22 (Trydydd argraffiad)*  
HSE Books 2008 ISBN 978 0 7176 6295 1 [www.hse.gov.uk/pubns/books/l22.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l22.htm)

*Safe use of lifting equipment. Lifting Operations and Lifting Equipment Regulations 1998. Approved Code of Practice and guidance L113* HSE Books 1998  
ISBN 978 0 7176 1628 2 [www.hse.gov.uk/pubns/books/l113.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l113.htm)

*Hiring and leasing out of plant: Application of PUWER 98, regulations 26 and 27*  
MISC156 HSE Books 1998 [www.hse.gov.uk/pubns/9204.pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/9204.pdf)

*Safe use of power presses. Provision and Use of Work Equipment Regulations 1998 as applied to power presses. Approved Code of Practice and guidance L112*  
HSE Books 1998 ISBN 978 0 7176 1627 5 [www.hse.gov.uk/pubns/books/l112.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l112.htm)

*Workplace health, safety and welfare: A short guide for managers* Taflen INDG244 (rev3) HSE Books 2007 [www.hse.gov.uk/pubns/indg244.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg244.htm)

*Managing health and safety in construction. Construction (Design and Management) Regulations 2007. Approved Code of Practice L144*  
HSE Books 2007 ISBN 978 0 7176 6223 4 [www.hse.gov.uk/pubns/books/l144.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l144.htm)

*Buying new machinery: A short guide to the law and your responsibilities when buying new machinery for use at work* Taflen INDG271(rev1) HSE Books 2011  
[www.hse.gov.uk/pubns/indg271.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg271.htm)

*Safe use of woodworking machinery. Provision and Use of Work Equipment Regulations 1998 as applied to woodworking machinery. Approved Code of Practice and guidance L114* HSE Books 1998 ISBN 978 0 7176 1630 5  
[www.hse.gov.uk/pubns/books/l114.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l114.htm)

*Lifting equipment at work: A brief guide to the law* Taflen INDG290(rev1)  
HSE Books 2013 [www.hse.gov.uk/pubns/indg290.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg290.htm)

*Thorough examination of lifting equipment: A simple guide for employers* Taflen INDG422 HSE Books 2008 [www.hse.gov.uk/pubns/indg422.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg422.htm)

*Workplace transport safety: A brief guide* Taflen INDG199(rev2) HSE Books 2013  
[www.hse.gov.uk/pubns/indg199.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg199.htm)

*Workplace transport safety: An employers' guide* HSG136 (Ail argraffiad)  
HSE Books 2005 ISBN 978 0 7176 6154 1  
[www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg136.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg136.htm)




## **Mwy o wybodaeth**

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid ar gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Gellir dod o hyd i'r daflen hon ar [www.hse.gov.uk/pubns/indg291.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg291.htm).

©  *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 03/13.